

Crynodeb

Mae ein hymchwiliad i Ynni Niwclear yng Nghymru yn adeiladu ar y gwaith blaenorol a wnaed gan y Pwyllgor hwn, a'r Pwyllgorau rhagflaenol, i ymchwilio i ba mor debygol yw hi y daw datblygiad niwclear newydd llwyddiannus i Wylfa wrth i Lywodraeth y DU symud fwyfwy tuag at ynni niwclear. Er bod ynni niwclear wedi dod yn fwy blaenllaw ar yr agenda polisi wrth i'r wlad geisio mynd i'r afael â newid hinsawdd a diogelwch ynni'r DU, mae'r drafodaeth ynghylch ynni niwclear newydd yn Wylfa wedi parhau ers dros ddegawd.

Mae dau safle niwclear hanesyddol yng Nghymru, Wylfa ar Ynys Môn a Thrawsfynydd yng Ngwynedd. Ceisiodd Hitachi/Horizon Nuclear Power ddod ag adweithyddion newydd ar raddfa gigawat i Wylfa Newydd, sef tir drws nesaf i'r adweithyddion Magnox sydd wedi'u datgomisiynu. Fodd bynnag, tynnodd Hitachi yn ôl o'r datblygiad yn 2020 ar ôl methu â dod i gytundeb ariannu gyda Llywodraeth y DU. Mae'r tir yn parhau i gael ei reoli gan Horizon Nuclear Power drwy Hitachi.

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU 'Powering Up Britain', cyfres o ddogfennau a oedd yn amlinellu sut y bydd yn gwella diogelwch ynni ac yn cyflawni sero net. Yn y dogfennau, gwnaeth y Llywodraeth ymrwymiad o'r newydd i'r nodau yn Strategaeth Diogelwch Ynni Prydain. Roedd y nodau'n cynnwys cael 24GW o ynni niwclear erbyn 2050 a sicrhau penderfyniad buddsoddi terfynol ar gyfer un prosiect niwclear yn y Senedd hon ynghyd â dau brosiect arall yn y Senedd nesaf.

Clywsom ba mor atyniadol ydy Wylfa fel safle ar gyfer niwclear newydd a byddai llawer ar Ynys Môn yn croesawu'r datblygiad; fodd bynnag, clywsom hefyd gan y grŵp lleol Pobl Atal

Wylfa B (PAWB) sy'n gwrthwynebu niwclear newydd yn Wylfa. Clywsom ddadleuon dros system drydan sy'n rhedeg yn gyfan gwbl drwy ynni adnewyddadwy law yn llaw â defnyddio technoleg storio. Fodd bynnag, dyw'r dechnoleg hon ddim wedi ei datblygu'n llawn eto, ac felly, ar y cyfan, rydym o'r farn bod gan ynni niwclear rôl bwysig i'w chwarae fel rhan o gymysgedd o ffynonellau ynni carbon isel.

Er bod adweithyddion ar raddfa gigawat yn dechnoleg sydd wedi ei phrofi, mae Adweithyddion Modiwlwr Bach yn parhau i gael eu datblygu. Clywsom hefyd am y cyfleoedd y gallai Adweithyddion Modiwlwr Bach yn Nhrawsfynydd eu cynnig i'r Gogledd, yn arbennig gan Cwmni Egin, cwmni datblygu niwclear Llywodraeth Cymru ar gyfer Trawsfynydd. Fodd bynnag, os yw Llywodraeth y DU o ddifrif ynghylch ynni niwclear newydd, rydym o'r farn bod angen iddi ystyried adweithyddion newydd ar raddfa gigawat ochr yn ochr ag Adweithyddion Modiwlwr Bach.

Er bod cyflwyno'r model cyllid Sylfaen Asedau Rheoledig (RAB) ar gyfer prosiectau ynni niwclear yn cael ei groesawu, mae heriau ariannu sylweddol yn dal i fod yn gysylltiedig â seilwaith niwclear. Er mwyn i ddatblygiad yn Wylfa fynd rhagddo, mae rhwystrau pwysig yn parhau ynghylch ymrwymiad ariannol ac o ran codi'r cyfalaf sydd ei angen.

Yn 2016, adroddodd ein Pwyllgor rhagflaenol ar bwysigrwydd y diwydiant niwclear i economi'r Gogledd o ran darparu swyddi â lefelau uchel o sgiliau a medrusrwydd a chyflogau da i ran wledig o'r DU. Rydym yn ailadrodd y pwyntiau hyn ac yn credu y gallai datblygiadau niwclear newydd ddod â newid mawr i'r economi ranbarthol. Clywsom am y gweithwyr a'r busnesau o Gymru sydd eisoes yn cyfrannu at brosiectau Hinkley Point C a Sizewell C sy'n dangos bod o leiaf rhan o'r sgiliau a'r cadwyni cyflenwi sydd eu hangen ar gyfer prosiectau o'r

fath ar gael yng Nghymru. Ond byddai datblygiad newydd yn Wylfa yn gofyn am gynnydd sylweddol yn y gadwyn gyflenwi a thwf yn narpariaeth sgiliau bresennol y Gogledd.

Rydym yn cwestiynu am ba hyd y gall yr ansicrwydd ynghylch datblygiad niwclear newydd yn Wylfa barhau. Os bydd safle niwclear newydd yn dod i'r safle, mae angen mynd i'r afael â'r mater o berchnogaeth y tir ac rydym yn credu fod gan Lywodraeth y DU rôl i'w chwarae er mwyn sicrhau bod y safle ar gael i'w ddatblygu yn y dyfodol. Ein barn gyffredinol yw nad oes sicrwydd y daw niwclear newydd i Wylfa er gwaetha'r cynnydd sy'n cael ei wneud, ac mae angen mwy o ymrwymiad pendant gan Lywodraeth y DU i gyflawni prosiect yn Wylfa.